# DEDDF TAI (CYMRU) 2014

## EXPLANATORY NOTES

### SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

### Rhan 2 Digartrefedd

#### *Adran 50 – Dyletswydd i gynnal adolygiad digartrefedd a llunio strategaeth ddigartrefedd*

110. Rhaid i awdurdod tai lleol, yn gyfnodol, ymgymryd ag adolygiadau digartrefedd yn ei ardal. Yn seiliedig ar ganlyniadau adolygiad, rhaid iddo lunio a mabwysiadu strategaeth ddigartrefedd. Rhaid mabwysiadu'r strategaeth gyntaf yn 2018. Rhaid iddo ddatblygu a mabwysiadu strategaeth ym mhob pedwaredd flwyddyn ar ôl 2018. Mae gan Weinidogion Cymru b#er i amrywio'r amserlen hon. Rhaid i awdurdod ystyried y strategaeth wrth arfer ei holl swyddogaethau, ac nid yn unig ei swyddogaethau fel awdurdod tai lleol. Wrth gyflawni ei ddyletswyddau o dan yr adran hon rhaid i awdurdod tai lleol roi sylw i'r canllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru o dan adran 98.